OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 1132

# Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014

## RHAN 2

## SEFYDLU NEU YMUNO Â FFEDERASIWN

### Ystyried ymatebion i gynigion a phenderfynu a ddylid mynd ymlaen â hwy – a gynigir gan gorff llywodraethu

**7.**—(1) Rhaid i'r cyrff llywodraethu sy'n bwriadu ffedereiddio ystyried ar y cyd unrhyw ymatebion i'r cynigion, a rhaid i bob corff llywodraethu benderfynu naill ai—

(a) mynd ymlaen â'r cynigion ar gyfer ffedereiddio fel y'u cyhoeddwyd;

(b) mynd ymlaen â'r cynigion ar gyfer ffedereiddio gyda pha addasiadau bynnag a ystyrir yn briodol gan y corff llywodraethu; neu

(c) peidio â mynd ymlaen â'r cynigion ar gyfer ffedereiddio.

(2) Rhaid i'r addasiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(b) beidio â chynnwys newid o ran pa gyrff llywodraethu sy'n bwriadu ffedereiddio.

(3) Rhaid i'r holl gyrff llywodraethu sydd wedi penderfynu mynd ymlaen hysbysu, ar y cyd, yr awdurdod lleol neu'r awdurdodau lleol perthnasol o'r ffaith honno.